

Rhan 4.8 - Rheolau Gweithdrefnau Cyflogi Swyddogion

Mae'r Rheolau hyn wedi'u llunio i gydymffurfio â gofynion Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006 (fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2014).

Mae'r rheolau hyn yn diffinio'r termau canlynol:

Ystyr "prif swyddog" mewn perthynas â'r Cyngor yw

(a) Prif Weithredwr;

(b) y Swyddog Monitro;

(c) prif swyddog statudol a grybwyllwyd ym mharagraffau (a)(c) neu (d) o adran 2(6) o

Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989; neu

(d) prif swyddog anstatudol (o fewn ystyr adran 2(7) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989)

Ac mae unrhyw gyfeiriad at benodi prif swyddog neu honni ei benodi yn cynnwys cyfeiriad at gyflogi swyddog o'r fath neu honni ei gyflogi o dan gontract cyflogi.

Ystyr "prif swyddog cyllid" yw'r swyddog sydd â chyfrifoldeb, at ddibenion adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (gweinyddiaeth ariannol), dros weinyddu materion ariannol yr awdurdod lleol.

Ystyr "camau disgyblu" mewn perthynas ag aelod o'r staff yw unrhyw gamau a gymerir yn sgil camymddwyn honedig a fyddai, pe câi ei brofi, yn cael ei gofnodi yn nhrefn arferol y Cyngor, yn ffeil bersonol yr aelod o'r staff ac mae'n cynnwys unrhyw gynnig i ddiswyddo gweithiwr am unrhyw reswm ac eithrio yng nghyswllt dileu swydd, salwch parhaol neu lesgeidd corff neu feddwl, ond nid yw'n cynnwys methu ag adnewyddu contract gwaith cyfnod penodedig oni bai bod y Cyngor wedi ymrwymo i adnewyddu'r cyfryw gontract.

Ystyr "pennaeth y gwasanaethau democrataidd" yw'r swyddog penodedig o dan adran 8 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

Ystyr "Prif Weithredwr" yw'r swyddog penodedig o dan adran 54 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Ystyr "aelod o'r staff" yw unigolyn sydd wedi'i benodi neu sy'n dal swydd gyflogedig â'r Cyngor.

Ystyr "swyddog monitro" yw'r swyddog a benodwyd o dan adran 5(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (penodi ac adroddiadau swyddog monitro)

Mae gan “cydnabyddiaeth ariannol” mewn perthynas â phrif swyddog yr un ystyr ag yn adran 43(3) o Ddeddf Lleoliaeth 2011 h.y.

- (a) Cyflog y prif swyddog neu, yn achos prif swyddog a gyflogir gan yr awdurdod o dan gontract ar gyfer gwasanaethau, taliadau a wneir gan yr awdurdod i'r prif swyddog am y gwasanaethau hynny;
- (b) unrhyw fonysau sy'n daladwy i'r prif swyddog gan yr awdurdod;
- (c) unrhyw daliadau, ffioedd neu lwfansau sy'n daladwy i'r prif swyddog gan yr awdurdod;
- (d) unrhyw fuddion mewn nwyddau y mae hawl gan y prif swyddog iddynt o ganlyniad i swyddogaeth neu gyflogaeth y prif swyddog;
- (e) unrhyw gynnydd neu welliant o ran hawl pensiwn y prif swyddog lle bo'r cynnydd neu'r gwelliant yn digwydd yn sgil penderfyniad a wnaed gan yr awdurdod;
ac
- (f) unrhyw symiau sy'n daladwy i'r prif swyddog gan yr awdurdod pan fydd y prif swyddog yn peidio â dal ei swydd dan yr awdurdod ac yn peidio â chael ei gyflogi ganddo, heblaw am symiau eraill y gallant fod yn daladwy yn rhinwedd unrhyw ddeddfiad.

I gael manylion ynghylch penodiadau, cyfansoddiad a gwaith y Panelau Penodi perthnasol a'r Pwyllgorau Ymchwilio, gweler Rhan 3 o Gyfansoddiad y Cyngor.

1. Recriwtio a Phenodi

- (a) Datganiadau
 - i) Bydd y Cyngor yn llunio datganiad yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw ymgeisydd am swydd swyddog nodi yn ysgrifenedig a ydynt yn rhiant, tadcu neu famgu, cymar, plentyn, llysblentyn, plentyn wedi ei fabwysiadu, ŵyr neu wyres, brawd, chwaer, ewythr, modryb, nai neu nith i Gynghorydd presennol, neu swyddog y Cyngor; neu gymar personau o'r fath.
 - ii) Ni phenodir unrhyw ymgeisydd sy'n perthyn felly i Gynghorydd, neu i swyddog heb awdurdod y prif swyddog perthnasol neu swyddog a enwebwyd ganddo ef/hi.
- (b) Gofyn am gefnogaeth i benodi.
 - i) Yn ddarostyngedig i baragraff (iii), bydd y Cyngor yn anghymwyso unrhyw ymgeisydd sy'n ceisio cael cefnogaeth unrhyw Gynghorydd naill ai yn uniongyrchol neu yn anuniongyrchol i unrhyw swydd gyda'r Cyngor. Cynhwysir cynnwys y paragraff hwn mewn unrhyw wybodaeth am recriwtio.
 - ii) Yn ddarostyngedig i baragraff (iii), ni fydd unrhyw Gynghorydd yn ceisio cael cefnogaeth i unrhyw berson ar gyfer unrhyw swydd gyda'r Cyngor.
 - iii) Ni fydd unrhyw beth ym mharagraffau (i) a (ii) uchod yn atal Cynghorydd rhag rhoi tystlythyr ysgrifenedig i ymgeisydd i'w gyflwyno gyda chais am benodiad.

2. Recriwtio'r Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth

- Lle bo'r Cyngor yn bwriadu penodi Prif Swyddog a bod y gydnabyddiaeth ariannol y mae'n bwriadu ei thalu yn £100,000 neu'n fwy y flwyddyn, bydd yn:

- (a) llunio datganiad yn nodi:
 - i) dyletswyddau'r swyddog dan sylw; ac
 - ii) unrhyw gymwysterau neu nodweddion i chwilio amdanynt yn y sawl a benodir;
- (b) gwneud trefniadau i'r swydd gael ei hysbysebu'n gyhoeddus mewn modd sy'n debygol o'i dwyn i sylw pobl sy'n gymwys i ymgeisio amdani; a
- (c) gwneud trefniadau i gopi o'r datganiad a grybwyllwyd uchod gael ei anfon at unrhyw un sy'n gwneud cais am hynny.

(ii) Lle bo is-baragraffau 2(i)(a)(i) ac (ii) yn berthnasol, nid yw'n ofynnol i'r Cyngor gymryd y cam a nodwyd yn is-baragraff 2(i)(b) uchod os yw'n bwriadu penodi prif swyddog am gyfnod heb fod yn hwy na 12 mis.

(iii) penderfynu ar lefel y cyflog, ac ar unrhyw newid yn y lefel honno, sydd i'w thalu i'r prif swyddog

3. Penodi Prif Weithredwr

Bydd y Cyngor llawn yn cymeradwyo penodi Prif Weithredwr yn dilyn argymhell penodiad o'r fath gan Bwyllgor Penodi "A".

4. Penodi Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth

- 4.1 Bydd Pwyllgor Penodi "A" yn penodi Cyfarwyddwyr.
- 4.2 Bydd Pwyllgor Penodi "B" yn penodi Penaethiaid Gwasanaeth gan gynnwys y Swyddog Monitro a Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd.

5. Llunio Rhestr Fer ar gyfer Penodi Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Gwasanaeth

- 5.1 Bydd y trefniadau canlynol yn berthnasol ar gyfer llunio rhestr fer a phenodi p'un a yw ymgeiswyr allanol i'w hystyried neu beidio:

	<u>Rhestr Fer</u>	<u>Penodir gan</u>
Prif Weithredwr	Pwyllgor Penodi "A"	Y Cyngor yn unol ag argymhelliad Pwyllgor Penodi "A"
Cyfarwyddwyr	Wyth aelod o Bwyllgor Penodi "A" sy'n adlewyrchu cydbwysedd	Pwyllgor Penodi "A"

	gwleidyddol y Cyngor ac sydd wedi'u dewis yn ôl trefn rota yn nhrefn yr wyddor (gan gynnwys hefyd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol sy'n gyfrifol am y maes gwasanaeth y mae'r swydd yn rhan ohono)	
Penaethiaid Gwasanaeth	Cyfarwyddwr perthnasol y gwasanaeth dan sylw drwy ymgynghori â'r Aelod(au) perthnasol o'r Bwrdd Gweithredol / Cadeirydd y Pwyllgor Craffu	Pwyllgor Penodi "B"

- 5.2 Lle nad oes person cymwys wedi gwneud cais sy'n cwrdd â gofynion hanfodol y swydd, bydd y personau sy'n gyfrifol am lunio rhestr fer ar gyfer y penodiad yn cael cyfarwyddyd i beidio â mynd ymlaen â'r penodiad ac i gymeradwyo trefniadau pellach i hysbysebu'r swydd(i) yn unol â pharagraff 2(b) uchod.

6. Penodiadau eraill

(a) Swyddogion islaw Penaethiaid Gwasanaeth

Mae penodi swyddogion islaw Penaethiaid Gwasanaeth (ac eithrio cynorthwyr i grwpiau gwleidyddol), yn gyfrifoldeb y Prif Weithredwr neu ei enwebai ef/hi, ac ni ellir ei wneud gan Gynghorwyr, ac eithrio bod penodi athrawon a staff eraill a gyflogir gan yr awdurdod addysg lleol mewn ysgolion yn cael sylw yn unol â rheoliadau a wnaed dan Adran 35(4) a (5) o Ddeddf Addysg 2002.

(b) Cynorthwyr i grwpiau gwleidyddol.

Penodir cynorthwy-ydd grŵp gwleidyddol yn unol â dymuniadau'r grŵp gwleidyddol hwnnw.

7. Camau disgyblu

- (a) Yn achos y Prif Weithredwr, Swyddog Monitro, Prif Swyddog Cyllid a Phennaeth y Gwasanaethau Democrataidd, neu swyddog y bwriedir cymryd camau disgyblu yn ei gylch lle roedd y swyddog, ond lle nad yw mwyach ar adeg y camau disgyblu, yn Brif Weithredwr, yn Swyddog Monitro, yn Brif Swyddog Cyllid neu'n Bennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a lle bo'r camymddygiad honedig neu, fel y bo'r achos, y rheswm dros y cynnig am ddiswyddo, wedi digwydd yn ystod cyfnod pryd roedd y swyddog yn un o'r swyddogion hynny, gall gael ei atal dros dro o'i waith tra bo ymchwiliad yn cael ei gynnal i'r camymddygiad honedig. Bydd yr ataliad hwnnw ar dâl llawn ac ni fydd yn para mwy na deufis. Ni ellir cymryd unrhyw gamau disgyblu eraill mewn perthynas ag unrhyw rai o'r swyddogion uchod ac eithrio yn unol ag argymhelliad mewn adroddiad a wnaed gan berson annibynnol dynodedig a benodwyd gan Bwyllgor Ymchwilio y Cyngor.
- (b) Bydd Pwyllgor Ymchwilio "A" yn cymryd camau disgyblu mewn perthynas â Chyfarwyddwyr.

- (c) Bydd Pwyllgor Ymchwilio "B" yn cymryd camau disgyblu mewn perthynas â Phenathiaid Gwasanaeth.
- (d) Mater i'r grŵp gwleidyddol a benododd yr unigolyn dan sylw yw cymryd camau disgyblu mewn perthynas â chynorthwy-ydd i grŵp gwleidyddol.
- (e) Cymerir camau i atal neu ddisgyblu athrawon neu staff eraill sy'n gweithio mewn ysgolion ac sy'n cael eu cyflogi gan yr awdurdod addysg lleol, yn unol â rheoliadau a wnaed dan Adran 35(4) a (5) o Ddeddf Addysg 2002.
- (f) Ni fydd Cynghorwyr yn ymwneud â'r camau disgyblu yn erbyn unrhyw swyddog islaw'r penaethiaid gwasanaeth ac eithrio lle bo cyfranogiad o'r fath yn angenrheidiol ar gyfer cynnal unrhyw ymchwiliad i honiad o gamymddwyn, er y gall gweithdrefnau ynghylch disgyblaeth a gallu a gweithdrefnau cysylltiedig y Cyngor, fel y mabwysiedir hwy o bryd i'w gilydd, ganiatáu hawl i apelio i aelodau mewn perthynas â chamau disgyblu.

8. Diswyddo

- (a) Yn achos y Prif Weithredwr, Swyddog Monitro, Prif Swyddog Cyllid, Pennaeth y Gwasanaethau Democraidd ac unrhyw swyddogion a oedd yn y swyddi hynny ar adeg y camymddygiad honedig neu, fel y bo'r achos, y rheswm dros y cynnig am ddiswyddo, y Cyngor llawn yn unig all ei ddiswyddo, ar ôl ystyried adroddiad person annibynnol dynodedig a benodwyd gan Bwyllgor Ymchwilio y Cyngor.
- (b) Yn ddarostyngedig i (a) uchod, Pwyllgor Ymchwilio "A" yn unig sy'n cael diswyddo Cyfarwyddwyr.
- (c) Yn ddarostyngedig i (a) uchod, Pwyllgor Ymchwilio "B" yn unig sy'n cael diswyddo Penaethiaid Gwasanaeth.
- (d) Ni fydd Cynghorwyr yn ymwneud â diswyddo unrhyw swyddog islaw'r Penaethiaid Gwasanaeth ac eithrio lle bo cyfranogiad o'r fath yn angenrheidiol ar gyfer cynnal unrhyw ymchwiliad i honiadau o gamymddwyn, er y gall gweithdrefnau ynghylch disgyblaeth a gallu a gweithdrefnau cysylltiedig y Cyngor fel y mabwysiedir hwy o bryd i'w gilydd ganiatáu hawl i apelio i'r Pwyllgor Apelaau.
- (e) Mater i'r grŵp gwleidyddol a benododd yr unigolyn dan sylw yw diswyddo cynorthwy-ydd i grŵp gwleidyddol. Bydd athrawon neu staff eraill mewn ysgolion sy'n cael eu cyflogi gan yr awdurdod addysg lleol yn cael eu diswyddo yn unol â rheoliadau a wnaed dan Adran 35(4) a (5) o Ddeddf Addysg 2002.